



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Dechrau'n Deg

Canllawiau Strategol



Ebrill 2012

Cynnwys

Adran 1:	Canllawiau Dechrau'n Deg - Cyfeiriad Strategol	3
Adran 2:	Elfennau Craidd Dechrau'n Deg	4
2.1	Gofal Plant	5
2.2	Ymwelwyr Iechyd a Bydwreigiaeth	6
2.3	Rhianta	7
2.4	Datblygiad Iaith Cynnar	7
2.5	Allgymorth	8
2.6	Egwyddorion Allweddol	8
2.6.1	Gweithio Aml-asiantaeth a Chyd-leoli	8
2.6.2	Adnabod yn Gynnar, Asesu ac Atgyfeirio'n Effeithiol	8
2.6.3	Grwpiau Anodd eu Cyrraedd	9
2.6.4	Pontio	9
2.6.5	Rhannu Gwybodaeth	9
2.6.6	Llywodraethu	9
2.6.7	Perfformiad a Monitro	10
2.6.8	Gwerthuso	10
2.6.9	Diogelu	10
Adran 3:	Rhagolwg/Canllawiau'r Dyfodol	11



Adran 1:

Canllawiau Dechrau'n Deg - Cyfeiriad Strategol

Dechrau'n Deg yw rhaglen flaenllaw Llywodraeth Cymru, sef y Blynyddoedd Cynnar, ar gyfer teuluoedd â phlant dan 4 oed. Mae wedi'i thargeddu at rai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Mae'n offeryn hanfodol ar gyfer cyflenwi'r 7 Amcan Craidd ar gyfer plant a phobl ifanc.

Dechrau'n Deg yw un o brif flaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Rydym wedi ymrwymo i ddyblu nifer y plant a'u teuluoedd sy'n elwa o'r rhaglen Dechrau'n Deg o 18,000 i 36,000 yn ystod y weinyddiaeth hon. I'r perwyl hwn sicrhawyd bod £55 miliwn o gyllid refeniw ychwanegol a £6 miliwn o gyllid cyfalaf ar gael yn ystod y tair blynedd nesaf.

Nod y rhaglen yw gwneud gwahaniaeth pendant i gyfleoedd bywyd plant o dan 4 oed yn yr ardaloedd lle mae'n bodoli. Mae iddi bedair o elfennau craidd - gofal plant o ansawdd sy'n rhad ac am ddim, cymorth i rieni, cymorth dwys gan ymwelwyr iechyd, a chymorth ar gyfer llythrennedd cynnar. At hynny, o 2012, bydd elfen o waith allgymorth yn cael ei chynnwys yn y rhaglen.

Mae canllawiau strategol Dechrau'n Deg yn diweddar ac yn adeiladu ar ganllawiau blaenorol Dechrau'n Deg a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Bwriedir i'r canllawiau hyn lywio datblygiad cynllun strategol 3 blynedd gan awdurdodau lleol a'u partneriaid ar gyfer 2012-2015 er mwyn cyflawni'r ymrwymiad hwn. Dylai'r cynllun hwn, sy'n seiliedig ar ddyraniadau dangosol Dechrau'n Deg yr awdurdodau lleol a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2011, gael ei gyflwyno i'w ystyried gan Lywodraeth Cymru erbyn diwedd Mai 2012 fan bellaf. Bydd tîm Dechrau'n Deg Llywodraeth Cymru wedyn yn gweithio gydag awdurdodau lleol a'u partneriaid i sicrhau ansawdd, cysondeb cynllunio a chyflenwi ar lefel leol.

Amlinellir y disgwyliadau o'r hyn y dylid ei gynnwys yn y cynllun strategol 3 blynedd yn adran 2.1 o'r ddogfen hon, Elfennau Craidd y Rhaglen, ac adran 2.2, Egwyddorion Allweddol, a dylent fod yr un mor gymwys i ardaloedd Dechrau'n Deg sydd eisoes yn bodoli a'r rhai newydd.

Disgwylir i awdurdodau lleol weithio mewn partneriaeth o'r cychwyn cyntaf gyda'r holl randdeiliaid gan gynnwys Byrddau Iechyd Lleol, y sectorau gwirfoddol a phreifat. Bydd yn ofynnol i Brif Weithredwyr BILL lofnodi adrannau perthnasol o'r cynlluniau cyn eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ailddatgan ei hymrwymiad i gefnogi'r cymunedau mwyaf difreintiedig ar draws Cymru, nid yn unig drwy ehangu Dechrau'n Deg, ond hefyd drwy barhau â'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf drwy ymrwymiad parhaus i Teuluoedd yn Gyntaf a Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd. Felly dylai cynlluniau Dechrau'n Deg ddatgan yn glir sut y caiff y rhaglenni hyn eu cysylltu ynghyd ar lefel leol, a pha drefniadau sydd yn eu lle i sicrhau y cânt eu cyflenwi'n lleol yng nghyd-destun yr asesiad o anghenion lleol. Gyda'i gilydd, mae'r rhaglenni hyn yn cysylltu ac yn hybu mynediad i wasanaethau ac yn sicrhau eu bod yn fwy hygyrch i deuluoedd a chymunedau difreintiedig. Dylid cyflwyno copiâu o'r anghenion a aseswyd gyda chynlluniau Dechrau'n Deg.

Nid yw'r ddogfen hon ar gael mewn print ond bydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru. Ychwanegir at y canllawiau strategol hyn yn ystod y misoedd i ddod a bydd yn rhan o wybodaeth a gaiff ei diweddarau i gynnwys Atodiadau mewn perthynas ag elfennau allweddol o'r rhaglen, arferion da, adroddiadau, dolenni i waith ymchwil, gwerthuso a chyfathrebu arall gan Lywodraeth Cymru.

Adran 2:

Elfennau Craidd Dechrau'n Deg

Prif ffocws y cynllun Dechrau'n Deg, yn bendant, yw pedair elfen graidd y rhaglen:

- Gofal plant rhan-amser o ansawdd i bob plentyn 2-3 oed mewn ardaloedd Dechrau'n Deg;
- Gwasanaeth estynedig gan Ymwelwyr Iechyd â llwyth achosion 1:110;
- Rhaglenni a chymorth i rieni;
- Datblygiad Iaith Cynnar.

Rhaid i bob teulu sy'n gymwys allu cael mynediad i'r pedair elfen graidd a rhaid i'r holl fuddsoddiadau fod yn seiliedig ar ddulliau o weithio sydd wedi gwerthuso'n dda. At hynny, o 2012-13, bydd elfen o waith allgymorth yn cael ei chynnwys yn y rhaglen.

Mewn rhai achosion gellir defnyddio cyllid Dechrau'n Deg at ddibenion sy'n cyd-ategu'r elfen graidd, ond rhaid i'r elfen graidd fod yn flaenoriaeth. Rhaid i gynllun Dechrau'n Deg ddarparu manylion y cyllidebau a'r adnoddau a ddyrennir i bob un elfen a, lle bo'n briodol, elfennau eraill o'r cynnig lleol.

2.1 Gofal plant

Y cynnig craidd ar gyfer gofal plant yw bod gofal plant o ansawdd yn cael ei gynnig i bob plentyn 2-3 oed sy'n gymwys, a hynny am 2½ awr y diwrnod, 5 niwrnod yr wythnos am 39 wythnos. Hefyd, dylai fod darpariaeth o 15 sesiwn o leiaf ar gyfer y teulu adeg gwyliau ysgol. Dylai'r cynnig gofal plant fod yn gysylltiedig â mynediad cyfnod sylfaen i ysgolion er mwyn sicrhau pontio'n ddidrafferth rhwng y ddau gynnig heb unrhyw fwllch yn y ddarpariaeth. Efallai y bydd



angen hyblygrwydd i rieni sy'n gweithio wrth bennu gofal plant. Dylai cynlluniau Dechrau'n Deg nodi'r trefniadau hyn. Dylai'r cynllun hefyd nodi'r trefniadau ar gyfer rheoli lleoliadau gofal plant gyda golwg ar sicrhau'r defnydd gorau posibl ohonynt gan y plentyn, yn ogystal â sicrhau gwerth am arian o ran ailbennu'r gofal. Dylai'r cynllun nodi'r trefniadau mewn perthynas ag anghenion y plant y mae angen gofal arbennig arnynt. Gallai hyn ddigwydd oherwydd anghenion ychwanegol, a rhieni'n dewis gofal plant trwy gyfrwng y Gymraeg a/neu'n ddwyieithog.

Mae'r awdurdodau lleol yn gyfrifol am sicrhau ansawdd y lleoliadau a bod digon ohonynt ar gael. Hwyl sy'n gyfrifol hefyd am y gweithlu, gan gynnwys y lefelau priodol o hyfforddiant a chymwysterau (lefel 3 NVQ/FfCCh ar gyfer gweithwyr cymorth a lefel 4 NVQ (neu'r lefel 5 newydd FfCCh cyfatebol i arweinwyr). Rhaid i bob lleoliad Dechrau'n Deg fod wedi'u cofrestru gan AGGCC a rhaid i awdurdodau lleol hysbysu Llywodraeth Cymru os nad yw hyn yn wir neu os yw hynny'n dod i ben.

O fewn gofal plant, rhaid i holl blant Dechrau'n Deg gael eu hasesu gan ddefnyddio offeryn asesu a gymeradwyir gan Lywodraeth Cymru, yn y lle cyntaf pan gânt eu derbyn yn y lleoliad gofal plant ac yna yn ystod y pedair wythnos olaf yn y lleoliad Dechrau'n Deg. Dylid sicrhau bod rhieni'n cael yr wybodaeth lawn am ganlyniadau'r asesiad ac yn cael eu hannog i gefnogi rhannu gwybodaeth pan fydd plant yn cael eu trosglwyddo i gam nesaf eu haddysg fel cylch chwarae, meithrinfa, gwarchodwr plant neu ysgol.

Yn ogystal â rhoi sylw i elfennau craidd y cynnig gofal plant, dylai eich cynllun Dechrau'n Deg gynnwys manylion unrhyw leoliadau gofal plant

ychwanegol y bydd yr awdurdod lleol yn eu sicrhau er mwyn ehangu'r rhaglen. Dylid rhoi ystyriaeth i bob opsiwn cyflenwi, gan gynnwys dull economi gymysg y lleoliadau preifat a gwirfoddol yn ogystal â dull cyflenwi'r awdurdodau lleol. Gall darparu gofal plant gael gwared ar y rhwystrau i rai rhieni rhag gweithio, ond yn y rhaglen hon anghenion y plentyn fydd y prif ganolbwynt. Dylai'r rhan hon o'r cynllun gynnwys dadansoddiad o'r gofynion ar gyfer y gweithlu sydd â'r cymwyseddau addas, gan gynnwys atebion lleol i gyflenwi. Rydyn ni hefyd yn disgwyl i'r cynlluniau fod â chysylltiad clir ag unrhyw gais am gyllid cyfalaf.

Mae athro cyswllt Dechrau'n Deg yn elfen hanfodol er mwyn sicrhau ansawdd a phontio.

Bydd canllawiau pellach ar ddisgwyliadau penodol mewn perthynas ag elfen graidd gofal plant Dechrau'n Deg yn cael eu cynnwys mewn Atodiad i'r canllawiau hyn.



2.2 Ymwelwyr Iechyd a Bydwreigiaeth

Rhan allweddol o gyflenwi'r rhaglen yw'r gofyniad bod un ymwelydd iechyd cyfwerth ag amser llawn am bob 110 o blant dan 4 oed yn yr ardaloedd targed. Mae hyn er mwyn sicrhau bod cymorth dwys yn cael ei roi i blant Dechrau'n Deg a'u teuluoedd. Disgwylir i Fyrddau Iechyd Lleol gyfrannu'r gyfran o'r gyllideb sy'n adlewyrchu'r gyfran o'r llwyth achosion generig sy'n cael ei throsglwyddo i ymwelwyr iechyd Dechrau'n Deg. Dylai Dechrau'n Deg fod yn talu'n unig am y gweithlu ychwanegol ar gyfer yr ehangu yn unol â'r gymhareb 1:110. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod Dechrau'n Deg yn ychwanegol at y ddarpariaeth bresennol ac nid yn cymryd lle'r ddarpariaeth bresennol.

At hynny, a chan weithio'n agos â'r Byrddau Iechyd Lleol, dylai'r cynllun ddiffinio'n glir y trefniadau lleol ar gyfer sicrhau bod plant 4 oed yn pontio'n ddidrafferth rhwng ymwelwyr iechyd Dechrau'n Deg a'r nyrs ysgol.

Fel y nodwyd yng nghanllawiau blaenorol Dechrau'n Deg ac yn seiliedig ar ganfyddiadau'r gwerthusiad dros dro, dylai'r cynllun hefyd adlewyrchu bod angen i ymwelwyr iechyd Dechrau'n Deg gael eu cydleo'i o fewn tîm Dechrau'n Deg, a chael cefnogaeth briodol gan staff gweinyddol a rheolwyr. Dylid cynnwys trefniadau rheoli llinell ac adrodd o fewn yr elfen hon o'r cynllun, a hefyd unrhyw drefniadau lleol mewn perthynas â goruchwyliaeth glinigol neu weithredol. Rhagwelir y cyflogir Rheolwr Ymwelwyr Iechyd penodol i Dechrau'n Deg, nad yw'n gyfrifol am achosion unigol, ymhob awdurdod lleol.

Prif swyddogaeth ymwelydd iechyd Dechrau'n Deg yw rhoi cefnogaeth i'r teulu yn y cartref, gan asesu'r plentyn (gan ddefnyddio offeryn asesu datblygiadol priodol a gymeradwyir gan Lywodraeth Cymru) a'r teulu (yn ôl risg uchel, canolig neu isel). Dylai ymwelwyr iechyd Dechrau'n Deg gynnal asesiadau parhaus ar y teuluoedd hynny sy'n cael eu nodi fel risg canolig neu uchel a gwneud atgyfeiriadau priodol.

Bydd canllawiau pellach ar ddisgwyliadau penodol mewn perthynas â rôl ymwelydd iechyd Dechrau'n Deg, sy'n cynnwys asesu ac atgyfeirio, yn cael eu rhoi mewn Atodiad i'r canllaw hwn.

Mewn rhai awdurdodau lleol, cyflogir bydwreagedd fel rhan o dîm craidd Dechrau'n Deg. P'un a fydd hyn yn digwydd yn lleol ai peidio, rydym yn disgwyl i ymwelwyr iechyd Dechrau'n Deg weithio'n agos â bydwreagedd generig sy'n gweithio gyda rhieni Dechrau'n Deg. Bydd hyn yn galluogi'r ymwelydd iechyd Dechrau'n Deg a'r fydwaig i gael y cyfle i ddylanwadu ar yr agenda rianta mewn perthynas â'r teuluoedd hyn, ar adeg pan fydd y rhieni eu hunain yn debygol o fod yn barod i'w derbyn. Dylid rhoi pwyslais arbennig ar weithio gyda'r grwpiau mwyaf agored i niwed gan gynnwys rhieni yn eu harddegau, y rhai sy'n dioddef o gam-drin domestig ac iselder cyn neu ar ôl geni plentyn, neu mewn perygl o ddiodeff ohonynt, a dylai'r cynllun adlewyrchu'r trefniadau ar gyfer hyn.

Mae Llywodraeth Cymru, gan gydweithio â phartneriaid allweddol, wrthi'n datblygu Cytundeb Lefel Gwasanaeth sydd i'w ddefnyddio ar draws Dechrau'n Deg yng Nghymru. Bydd hwn ar gael yn 2012.

2.3 Rhianta

Dylai elfen rianta Dechrau'n Deg gael ei chyflenwi, lle bo'n bosibl, drwy ddefnyddio tîm rhianta penodedig Dechrau'n Deg, sydd wedi'i gyd-leoli. Dylai'r cynlluniau nodi'n glir pa drefniadau sydd yn eu lle i gefnogi hyn. Dylai'r cynnig rhianta fod yn seiliedig ar y tair thema ganlynol:

- Amenedigol a chymorth yn y blynyddoedd cynnar;
- Ymyrraeth Gynnar er mwyn cefnogi rhieni sy'n agored i niwed; a
- Rhaglenni i gefnogi rhieni i rianta'n bositif.

Rhaid i bob teulu sydd â phlentyn Dechrau'n Deg gael cynnig cymorth rhianta ffurfiol yn flynyddol o leiaf. Gall hyn fod mewn grwpiau neu un-i-un yn y cartref gyda chymysgedd o gymorth ffurfiol ac anffurfiol, yn dibynnu ar yr angen.

Yn ogystal â'r cynnig rhianta ffurfiol cyffredinol, gall rhaglenni rhianta eraill gael eu cyflenwi pan fydd asesiad yn dangos bod angen ychwanegol.

Bydd canllawiau pellach ar ddisgwyliadau penodol mewn perthynas ag elfen rianta Dechrau'n Deg yn cael eu cynnwys mewn Atodiad i'r canllawiau hyn. Bydd hyn yn cynnwys canllawiau pellach ar y rhaglenni rhianta o fewn pob un o'r themâu a nodir uchod.

2.4 Datblygiad Iaith Cynnar

Yn ôl tystiolaeth mae gallu iaith cynnar yn bwysig o ran rhagweld cynnydd diweddarach mewn llythrennedd, ac mae ganddo effaith ar sgiliau cymdeithasol yn ogystal ag ymddygiad plant. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i adolygu'r

elfen hon o gynnig Dechrau'n Deg. Yn y cyfamser, dylid defnyddio'r canllaw strategol canlynol:

Dylai fod gan bob teulu mewn ardal Dechrau'n Deg fynediad parhaus i gylch iaith a chwarae priodol. O'r fan hon, gellir cymryd cam sydd wedi'i dargedu a'i seilio ar asesiad ac atgyfeiriad lle mae tystiolaeth o angen ychwanegol. Mewn rhai awdurdodau lleol, cyflogir therapyddion iaith a lleferydd fel rhan o dim craidd Dechrau'n Deg. Pan fydd y dull hwn o weithredu wedi'i gysylltu â thystiolaeth o angen lleol a'r effaith ar ganlyniadau, caiff gefnogaeth gan Lywodraeth Cymru.

Dylid cyflenwi'r elfen hon o gynnig Dechrau'n Deg, lle bo'n bosibl, gan ddefnyddio tîm Dechrau'n Deg penodedig, sydd wedi'i gyd-leoli. Dylai'r cynlluniau nodi'n glir pa drefniadau sydd yn eu lle i gefnogi hyn.

Bydd canllawiau pellach ar ddisgwyliadau penodol mewn perthynas ag elfen Datblygiad Iaith Cynnar Dechrau'n Deg yn cael eu rhoi mewn Atodiad i'r canllaw hwn.



2.5 Allgymorth

Yn ychwanegol i'r 4 elfen graidd, dylid cynnwys elfen o waith allgymorth mewn cynlluniau i ehangu'r rhaglen Dechrau'n Deg. Yn y lle cyntaf ni fydd y niferoedd bach ond yn caniatáu ar gyfer prosiectau pilot a fydd yn llywio cynlluniau ar gyfer blynyddoedd i ddod. Rhaid i bob un o bedair elfen graidd Dechrau'n Deg gael eu cynnig i bob plentyn fel rhan o'r rhaglen allgymorth. Ar gyfer 2012-13, bydd y cyllid ar gyfer allgymorth yn 2.5% o'ch dyraniad refeniw Dechrau'n Deg *ychwanegol*. Dylai'r cynllun gynnwys manylion y mecanwaith atgyfeirio arfaethedig, a ddylai gysylltu'n agos â Teuluoedd yn Gyntaf. Rydym yn disgwyl ichi ddefnyddio mecanweithiau llywodraethu sydd eisoes yn eu lle drwy'r rhaglenni hyn a ddylai fod yn gadarn ac yn dryloyw.

Caiff allgymorth ei werthuso yn ystod 2012-13 a bydd canlyniad y gwerthusiad hwn yn cael ei ddefnyddio i lywio canllawiau pellach ar yr elfen hon ar y rhaglen.

2.6 Egwyddorion Allweddol

Dylai'r holl gynlluniau gynnwys adran ar bob un o'r prif egwyddorion a nodir isod. Dylai eich cynllun gynnwys tystiolaeth ar sut y caiff yr egwyddorion hyn eu defnyddio wrth gyflenwi'r rhaglen.

2.6.1 Gweithio Aml-asiantaeth a Chyd-leoli

Mae datblygu dull aml-asiantaeth Dechrau'n Deg yn allweddol i effeithiolrwydd y rhaglen ac yn allweddol i gynorthwyo plant a theuluoedd, gan alluogi system gynnar o adnabod, asesu ac atgyfeirio. Felly dylid sefydlu timau Dechrau'n Deg aml-asiantaeth ymhob awdurdod lleol a dylai'r cynllun ddangos tystiolaeth mai dyma sy'n digwydd. Dylai cynlluniau ddangos sut y mae cynigion aml-asiantaeth yn rhan o ddulliau Tim o Amgylch y Teulu sy'n cael eu gweithredu fel rhan o gynlluniau Teuluoedd yn Gyntaf. Dylai cynlluniau ddangos hefyd sut y mae'r cynigion yn gydnaws â'r dulliau Tim o Amgylch y Teulu ac yn gysylltiedig â hwy.

2.6.2 System Gynnar o Adnabod, Asesu ac Atgyfeirio Effeithiol

Mae adnabod yr angen yn gynnar drwy asesiad effeithiol, gydag atgyfeirio priodol ac amserol i ddilyn, yn allweddol i wella canlyniadau i blant.

Mae'n hanfodol cael asesiad cynnar trwyadl gan yr Ymwelydd Iechyd sy'n gwneud y defnydd gorau o holl adnoddau Dechrau'n Deg ac asiantaethau eraill. Dylid datblygu systemau sy'n rhoi ystyriaeth lawn i faterion ymgysylltu â'r teulu, gan archwilio a datblygu arfer gorau wrth fagu ymddiriedaeth a pherthynas.

Bydd cyd-weithio'n agos â'r gwasanaeth bydwreigiaeth yn sicrhau bod yr angen posibl yn cael ei nodi'n gynnar. Dylai staff Dechrau'n Deg weithio ar y cyd â holl elfennau'r rhaglen, eu hyrwyddo i deuluoedd a darparu atgyfeiriad

oddi mewn i'r rhaglenni ac i asiantaethau eraill lle bo'n briodol, h.y. Teuluoedd yn Gyntaf, Cymunedau yn Gyntaf a Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd.



2.6.3 Grwpiau Anodd eu Cyrraedd

Dylai cynlluniau Dechrau'n Deg roi pwyslais arbennig ar weithio gyda grwpiau anodd eu cyrraedd.

Rydym yn cydnabod y gall y grwpiau hyn amrywio rhwng awdurdodau lleol, ac y bydd materion lleol arbennig yn cael eu nodi yn y lle cyntaf yn eich asesiad o anghenion lleol. Rhaid i'ch cynlluniau fod â champau penodol i'w cymryd mewn perthynas â nodi, ymgysylltu a gweithio gyda'r grwpiau hyn.

2.6.4 Pontio

Mae pontio'n adeg lle bydd angen cymorth ychwanegol o bosibl gan blant a theuluoedd, a dylai eich cynlluniau adlewyrchu trefniadau i gyflawni hyn.

Rydyn ni'n disgwyli ichi roi yn eu lle systemau i sicrhau bod y pontio'n digwydd yn ddidrafferth i leoliadau Dechrau'n Deg ac ohonynt, gan gynnwys trosglwyddo i'r Cyfnod Sylfaen, yn ogystal â symudiadau rhwng gwasanaethau, gan gynnwys er enghraifft y nyrs ysgol a'r Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd

Dylai eich Cynlluniau Dechrau'n Deg nodi'n glir pa drefniadau sydd yn eu lle'n lleol i sicrhau pontio didrafferth ar draws a rhwng yr ystod o wasanaethau a rhaglenni y gall/bydd teuluoedd Dechrau'n Deg yn ymgysylltu â nhw.

Dylai eich cynlluniau hefyd gyfeirio at sut rydych yn cydweithio ag asiantaethau eraill i gefnogi'r pontio hwn.

Bydd canllawiau pellach ar ddisgwyliadau penodol mewn perthynas â threfniadau pontio'n cael eu cynnwys mewn Atodiad i'r canllawiau hyn.

2.6.5 Rhannu Gwybodaeth

Mabwysiadwyd Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI) gan Lywodraeth Cymru fel y "Safon Aur" unigol ar gyfer rhannu gwybodaeth bersonol.

Rydym yn disgwyl i awdurdodau lleol ac ymarferwyr Dechrau'n Deg gyd-weithio i ddarparu'r cymorth, cyngor a hyfforddiant angenrheidiol i sicrhau bod Fframwaith WASPI'n cael ei ddilyn. Mae hyn yr un mor berthnasol o fewn rhaglen Dechrau'n Deg a rhwng Dechrau'n Deg a gwasanaethau eraill. Dylai eich cynlluniau ddangos tystiolaeth glir ynghylch pa drefniadau sydd yn eu lle'n lleol i sicrhau bod hyn yn digwydd.

Cewch fwy o wybodaeth yn:

wales.gov.uk/consultations/healthsocialcare/food/?skip=1&lang=cy

2.6.6 Llywodraethu

Mae llywodraethu da a rheolaeth ariannol a rheoli perfformiad cadarn yn hanfodol.

O fewn eich cynllun Dechrau'n Deg dylech roi manylion eich trefniadau llywodraethu; nodi cysylltiadau â rhaglenni eraill, y person arweiniol a'r trefniadau partneriaeth sy'n gyfrifol am gyfeiriad a rheolaeth gyffredinol y rhaglen Dechrau'n Deg.

Byddwn yn disgwyl ichi gael tîm gweithredol Dechrau'n Deg sydd â'r adnoddau priodol, a'r sgiliau a'r arbenigedd i reoli eich rhaglen Dechrau'n Deg yn effeithlon ac yn effeithiol. Dylai olyniaeth a chynllunio ar gyfer trychinebau sicrhau y gallwch ymdopi'n gadarn â newidiadau yn yr adnoddau sydd ar gael, gan gynnwys unrhyw amharu na chafodd ei rag-weld.

Bydd canllawiau pellach ar ddisgwyliadau penodol mewn perthynas â threfniadau llywodraethu'n cael eu cynnwys mewn Atodiad i'r canllawiau hyn.

2.6.7 Perfformiad a Monitro

Mae taenlenni casglu data perfformiad a monitro yn cael eu datblygu ar ffurf ddiwygiedig ar adeg cynhyrchu'r canllawiau hyn. Bydd atodiad a thaenlen gyllid ar wahân yn cael eu cynhyrchu, a disgwylir i awdurdodau lleol gadw at y rhain pan fyddant yn barod.

2.6.8 Gwerthuso

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weithgarwch ymchwil a gwerthuso fel modd o sicrhau bod rhaglenni'n cael yr effaith a ddymunir. Mae Dechrau'n Deg yn agored i raglen barhaus o werthuso ar lefel genedlaethol. Caiff y canfyddiadau eu rhannu â'n partneriaid, fel sy'n briodol, er mwyn diffinio dysgu a lledaenu arfer da i gefnogi datblygiad parhaol y rhaglen.

Bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol roi gwybod i Lywodraeth Cymru am unrhyw weithgarwch gwerthuso lleol y dymunant ei gynnal a gwneud cais yn ffurfiol am gymeradwyaeth oddi wrth Lywodraeth Cymru cyn comisiynu.

Bydd yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gael manylion am yr amcanion, yr allbwn a ddymunir a'r costau am bob darn o waith. Bydd hyn yn gwneud y mwyaf o'r potensial i gydgysylltu, yn lleihau'r potensial i ddyblygu gwaith, ac yn helpu i sicrhau bod gweithgarwch ledled Cymru'n cael ei gomisiynu mor effeithlon ac effeithiol â phosibl.

2.6.9 Diogelu

Rhaid i'r holl staff sy'n gweithio yn Dechrau'n Deg fod wedi'u hyfforddi ac yn gweithio gyda'i gilydd yng nghyd-destun Deddf Plant 2004 ac yn rhwym i'w darpariaethau. Bydd angen i'ch cynllun ddangos tystiolaeth bod hynny'n wir.

Cewch fwy o wybodaeth yn:

<http://cymru.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/publications/participationstandards/?lang=cy>



Adran 3:

Rhagolwg/Canllawiau'r Dyfodol

Ychwanegir at y ddogfen ganllawiau o fewn y misoedd nesaf i ddarparu canllawiau manylach mewn atodiadau sy'n gysylltiedig â phrif elfennau'r rhaglen hon.

Bydd yr atodiadau'n cynnwys:

- Gofal plant o Ansawdd;
- Rhianta;
- Datblygiad Iaith Cynnar;
- Ymwelwyr Iechyd a Bydwreigiaeth;
- Gweithio Aml-asiantaeth;
- Pontio;
- Llywodraethu;
- Diogelu;
- Perfformiad a Monitro

Wrth ddarparu canllawiau ar Dechrau'n Deg, rydym yn ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng elfennau a ragnodir y mae'n **rhaid** eu cynnwys yn eich cynigion a disgresiwn lleol a hyblygrwydd i ddiwallu anghenion a nodir yn lleol. Dylech ddefnyddio'r canllawiau hyn a'r Atodiadau sydd yn yr arfaeth i sicrhau bod eich gweithgareddau, a rienir, yn unol â phrif amcanion a disgwyliadau'r rhaglen, ac yn parhau i fod felly, a'i bod yn dal i roi ystyriaeth i ddysgu ac arfer da sydd ar y gweill.

Mae hon yn ddogfen fyw ac yn agored i newid.

